**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 446**
**14 Ionawr 2021 - Cyfarfod Zoom**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | | |
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) – eitemau 1-3.5 |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Hefyd yn bresennol: Staff S4C:** | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitemau 3,5-9 |
| | Sioned Wyn Roberts | (Comisiynydd Cynnwys) – eitem 3.1 |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Ymddiheuriadau** | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C. Roedd wedi derbyn ymddiheuriad gan Owen Derbyshire.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau oni bai am ddatganiad RhW mewn perthynas ag Ofcom.

2. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd RhW ei adroddiad ar lafar, gan gynnwys y materion isod.

2.1 **Aelodaeth y Bwrdd**

Adroddwyd fod nifer da iawn o ymgeiswyr ar gyfer aelodaeth o'r Bwrdd, a bod cyfweliadau wedi'u cynnal dros ddau ddiwrnod cyn Nadolig. Roedd sawl ymgeisydd cryf iawn gyda chefndiroedd a sgiliau gwahanol, ac roedd y rhestr bellach wedi mynd at yr Ysgrifennydd Gwladol i ddewis. Gobeithir y bydd modd apwyntio'n fuan.

2.2 **Cyfarfod gyda Tim Davie, BBC**

Cynhaliwyd ail gyfarfod gyda Tim Davie ar 8 Ionawr 2021.

**[Crynodeb:** Soniwyd am y cynnydd yn natblygiadau Sgwâr Canolog, a'r posibilrwydd o gael rhywfaint o ofod Diffiniad Uchel ar gyfer yr oriau brig a'r penwythnos. Trafodwyd cyflenwad statudol y BBC ac hefyd y bwriad i barhau gyda threfniant yr iPlayer.

Nodwyd yr angen i ddod i gytundeb mor fuan â phosib o ran cyflenwad raglenni ar gyfer 2021-22.]

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod.

3.1 **Cynlluniau Addysg S4C**

Cyflwynodd SWR ddiweddariad mewn perthynas â chynnwys addysg fyddai ar gael dros yr wythnosau nesaf. Gydag ysgolion ar gau a rhieni yn addysgu plant o adref, byddai S4C a Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi y bydd 80 awr o raglenni yn cael eu darparu ar blatfform addysg Hwb, Llywodraeth Cymru. Byddai'r gwasanaeth yn cael ei lansio ddydd Llun 18 Ionawr gyda'r rhaglenni ar Hwb yn cynnwys 13 cyfres wahanol gan gynnwys cyfresi plant Shwshaswyn, Dwylo'r Enfys, Amser Maith Maith yn ôl, a hefyd rhaglenni o'r brif amserlen fel Cynefin a DRYCH. Byddai ffilmiau a chynnwys sydd ar y cwricwlwm Safon A, AS a TGAU hefyd yn cael eu hychwanegu i'r platfform ac yn dod yn rhan o arlwy S4C ar Hwb gan gynnwys Martha Jac a Sianco, ac Y Gwyll. Yn ogystal, roedd S4C yn cydweithio gyda BBC Cymru i ddarlledu pecynnau addysgol BBC Bitesize. Gan gychwyn ar 18 Ionawr byddai S4C yn darlledu un pecyn dyddiol o ddydd Llun i ddydd Gwener am 11.45 y bore.

Dywedodd RhW fod hwn yn ddatblygiad ardderchog a gofynnodd beth oedd y cynlluniau i sicrhau cyhoeddusrwydd. Soniodd GW am y datganiad a'r cynllun cyfathrebu gyda SWR yn ymddangos ar raglenni teledu a radio. Nodwyd hefyd bod S4C yn hysbysu'r rhanddeiliaid perthnasol.

**[Crynodeb:** Roedd llwyth o gynnwys yn yr archif i ddatblygu deunydd addysgiadol ond roedd SWR yn llwyr ymwybodol mai athrawon fydd yn gorfod arwain wrth ddefnyddio'r cynnwys yn y dosbarth.

Holwyd am fynediad i Hwb, ac esboniodd SWR bod gan bob plentyn hawl i ddefnyddio Hwb a bod cytundeb gyda'r ERA o ran hawliau. Roedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau fod athrawon ac ysgolion yn ymwybodol o'r cynnwys sydd ar gael. Nodwyd fod hwn yn gyfle gwych i geisio cyrraedd y gynulleidfa goll o ran rhieni.

Roedd angen peidio gorddibynnu ar ysgolion i hyrwyddo a gweithio gyda phartneriaid eraill i'w hyrwyddo hefyd. Cytunwyd bod angen paratoi cynllun cyfathrebu er mwyn cyrraedd rhieni, ysgolion, partneriaid ayyb.]

3.2 **Diweddariad ar Strategaeth 22**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd OE ddogfen i'r Bwrdd ar Strategaeth 22. Cafwyd trafodaeth fer oedd yn cynnwys y prif negeseuon ac awgrymiadau ar gyfer y drafft nesaf.]

3.3 **Diweddariad ar baratoi Cais Ffi'r Drwydded**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd OE fraslun o'r cais gan gynnwys amlinelliad o'r gwasanaeth presennol. Roedd amserlen y DCMS yn heriol ac roedd y llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gofyn am gais erbyn 26 Chwefror 2021.

Gofynnodd am adborth a sylwadau'r Bwrdd. Cafwyd trafodaeth o'r cais ac awgrymiadau pwrpasol ynghylch y cynnwys. Roedd y Bwrdd yn fodlon gyda'r strwythur arfaethedig ac yn teimlo fod y gwaith ar y trywydd iawn.]

3.4 **Amlinelliad o gostau arfaethedig ar gyfer 2022-27**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd SW adroddiad ar gostau posib 2022-27. Roedd 80% o'r gyllideb wrth gwrs yn talu am gynnwys.

Cytunodd y Bwrdd ar y strwythur a'r cynnwys a awgrymwyd, ac â'r costau yng nghyflwyniad SW.]

4. **Cydleoli**

Adroddwyd bod y cynnydd yn edrych yn addawol. Y gobaith oedd byddai'r Bwrdd yr wythnos ganlynol yn gallu dod i benderfyniad am 'Go, no go' a chydleoli yn Sgwâr Canolog ar 27 Ionawr.

5. **Rhaglen Waith y Bwrdd**

Cyflwynwyd copi o Raglen Waith y Bwrdd ar gyfer 2021 er gwybodaeth.

6. **Pwyllgor Cynnwys**

Cyflwynwyd adroddiad llafar ar gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2020.

7. **Cofnodion Cyfarfod 10 Rhagfyr 2020**

Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod rhif 445 gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020. Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi o'r cofnodion.

Cymeradwywyd y cofnodion.

8. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Nodwyd y gofrestr.

9. **Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.